

Adroddiad Cydraddoldeb Heddlu Gwent 2015



Gellir gwneud y Cynllun hwn ar gael (ar gais) mewn amrywiaeth o fformatau amgen:

Braille
CD Sain
PDF

Os hoffech wneud cais am gopi mewn fformat amgen neu i gael crynodeb o'r ddogfen hon mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, cysylltwch â ni yn:

Gwasanaethau Pobl,
Heddlu Gwent,
Llawr 2,
Vantage Point,
Tŷ Coch Way,
Cwmbrân,
Torfaen,
NP44 7HF

Ffôn: 01633 642020

Ffacs: 01633 645503

Minicom: 01633 877574

www.gwent.police.uk

Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Ein hymrwymiad i gydraddoldeb

3 Cynnydd a Chyflawniadau ar yr Amcanion Cydraddoldeb

Adran A: Amcanion Cydraddoldeb Gweithredol

Adran B: Amcanion Cydraddoldeb Mewnol

4 Gweithgareddau Eraill

5 Sut i gysylltu â ni

6 Ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol Diwygiedig

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae Heddlu Gwent wedi'i wneud i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gyflawni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a'i Amcanion Cydraddoldeb Strategol.

Cyhoeddwyd CCS Gwent ar 6 Ebrill 2012, ac roedd yn amlinellu blaenoriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth y llw am y 4 blynedd nesaf. Pennwyd y blaenoriaethau hyn drwy ymgynghori â'n staff a'n cymunedau, ac fe'u cyflwynir fel Amcanion Cydraddoldeb Strategol. I'n helpu i gyflawni'r Amcanion hyn, mae gan Heddlu Gwent hefyd Gynllun Gweithredu sy'n olrhain ein cynnydd, ac mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y Cynllun Gweithredu hwnnw.

Mae Cynllun Gweithredu y CCS yn cysylltu ein Hamcanion â gweithredoedd a chanlyniadau penodol, gan roi perchnogaeth glir ar gyfer pob elfen a gosod yr amserlen ar gyfer eu cwblhau. Roedd ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf ar y CCS yn manylu ynghylch sut roedd ein Hamcanion Cydraddoldeb wedi cael eu diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w diben a bydd yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Amcanion diwygiedig hynny. Hwn fydd yr Adroddiad Blynyddol olaf cyn lansiad ein CCS newydd, a gyhoeddir yn Ebrill 2016.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol hwn i'n helpu i gyflawni ein Dyletswydd Gyffredinol dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ond yn bwysicach na hynny, i ddathlu llwyddiant wrth weithio tuag at wasanaeth heddlu teg a chyfartal ac i ganfod unrhyw waith pellach y mae angen ei wneud.

Ym mis Hydref 2010, cyflwynodd y Ddeddf Cydraddoldeb newydd Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Heddlu Gwent, wrth arfer ei swyddogaethau mewnol ac allanol fel ei gilydd:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a rhai nad ydynt a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a rhai nad ydynt

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn berthnasol i bersonél yr Heddlu ac aelodau o'n cymunedau sy'n rhannu 'Nodweddion Gwarchoddedig'. Ceir 9 Nodwedd Warchoddedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Oed, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil, Crefydd neu Gred, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus, ceir 'Rheoliadau Penodol' sy'n amlinellu'n fanylach sut gallwn weithio tuag at gyflawni amcanion y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. Ceir Rheoliadau Penodol gwahanol ar gyfer Cymru a Lloegr, a chan nad yw Heddlu Gwent wedi'u datganoli, mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i fodloni Rheoliadau Lloegr. Fodd bynnag, fel Heddlu Cymreig sy'n gweithio gyda chyrrff partner datganoledig, byddwn hefyd yn ceisio bodloni gofynion Rheoliadau Cymru lle bynnag y bo modd.

I wneud hyn, bydd Heddlu Gwent yn:

- Cyhoeddi Gwybodaeth am Gydraddoldeb yn flynyddol yn ymwneud â nodweddion gwarchoddedig ein gweithwyr a nodweddion gwarchoddedig y bobl y mae ein polisiau a'n harferion yn effeithio arnynt
- Cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol (y ddogfen hon) yn amlinellu sut rydym yn cyflawni amcanion y ddyletswydd gyffredinol ac yn nodi cynnydd ac effeithiolrwydd o ran cyflawni pob amcan cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Asesu effaith ein polisiau a'n harferion arfaethedig yn erbyn ein Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol drwy barhau i ddefnyddio ein proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae gan Heddlu Gwent Fwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n cwrdd bob chwarter ac sy'n gosod yr agenda cydraddoldeb strategol. Mae'r cyfarfod hwn yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl ac ymhlith yr aelodau mae cynrychiolydd o bob un o'n rhwydweithiau cefnogi staff, ein harweinwyr amrywiaeth mewnol ac allanol, ein Heiriolwyr Amrywiaeth a'n Rheolwyr Gwasanaethau Pobl. Arweinwyr y Ffrydiau Gwaith perthnasol sy'n berchen ar yr Amcanion Cydraddoldeb, ac adroddir ar yr wybodaeth ddiweddaraf, llwyddiannau ac unrhyw rwystrau i gynnydd i'r Dirprwy Brif Gwnstabl drwy'r Bwrdd.

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb hefyd yn cael ei adlewyrchu yng ngwerthoedd Heddlu Gwent, sy'n golofn ganolog ar gyfer popeth a wnawn wrth heddlua. Dyma ein gwerthoedd: sicrhau Ymddiriedaeth ynom; bod yn Deg; bod yn Broffesiynol; bod yn Ofalgar ac Ymatebol. Dyhead Heddlu Gwent hefyd yw bod yn "Gyflogwr Delfrydol". Mae ein Strategaeth Cyflogwr Delfrydol yn ymdrin â sut mae ein gweithwyr yn trin ei gilydd o ddydd i ddydd, dan arweiniad ein gwerthoedd fel sefydliad. Dyma 4 egwyddor y strategaeth hon:

- **Arweinyddiaeth** amlwg sy'n grymuso ac sy'n rhoi eglurder ynghylch diben a datblygu i'r dyfodol
- **Rheolwyr** sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eu pobl, gan eu trin fel unigolion
- **Gweithwyr** sy'n cyfrannu'n weithgar at ddiben y sefydliad a'i ddatblygiad i'r dyfodol
- **Uniondeb** sefydliadol fel bod y gwerthoedd yn cael eu hadlewyrchu yn ein hymddygiadau o ddydd i ddydd

Cynnydd a Chyflawniadau ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Adran A: Amcanion Cydraddoldeb Gweithredol

Amcan 1: Cam-drin Domestig a Thrais ar sail Anrhydedd

Sicrhau bod ymateb Heddlu Gwent i gam-drin domestig yn addas ac ar gael i bob cymuned, gan gynnwys y rheini sydd o bosibl yn wynebu rhwystrau penodol o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau cam-drin domestig, a sefydlu darlun cywir o nifer a natur y digwyddiadau trais ar sail anrhydedd sy'n digwydd yn ardal Heddlu Gwent.

Cyflawniadau allweddol – yn gryno

- **Llwyddiant o ran cynyddu nifer y dynion y canfyddir eu bod wedi dioddef cam-drin domestig**
- **Parhau i fonitro Nodweddion Gwarchodedig dioddefwyr cam-drin domestig er mwyn gwella perfformiad**
- **Diweddarau'r holl Bolisiâu a Gweithdrefnau ym maes cam-drin domestig, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod**

Monitro Nodweddion Gwarchodedig

Gall Nodweddion Gwarchodedig effeithio ar ddeinameg sefyllfa cam-drin domestig mewn nifer o ffyrdd. Gallant olygu bod pobl yn fwy agored i ddioddef cam-drin domestig yn y lle cyntaf, neu gallant effeithio ar y tebygrwydd y byddant yn rhoi gwybod am y cam-drin.

- Amcangyfrifir fod tua 25% o bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol wedi bod mewn perthynas dreisgar neu fygythiol gyda phartneriaid neu gynbartneriaid ar ryw adeg. Dyma'r un gyfradd ag ar gyfer menywod heterorywiol, ond mae'r lefelau rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn ddramatig o is.
- Yn ôl ymchwil gan Gymorth i Fenywod, mae un ym mhob pedair menyw yn profi cam-drin domestig. Mae'r ffigwr hwn yn dyblu ar gyfer menywod a chanddynt anabledd. I fenywod anabl, gall cam-drin domestig yn aml fod ar ffurf gymhleth, unigryw, yn aml yn ymwneud yn benodol â'u hanabledd, megis gwrthod meddyginiaeth iddynt, ymosod yn gorfforol arnynt neu fynd ati'n fwriadol i beidio â'u cynorthwyo i fynd i'r tŷ bach.

Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o feysydd cam-drin domestig nas rhoddir gwybod yn ddigonol amdanynt yn lleol, mae Heddlu Gwent bellach yn adolygu data blynyddol a ddarperir i ni gan CAADA (Cyd-weithredu yn erbyn Cam-drin Domestig) ynghylch Nodweddion Gwarchodedig dioddefwyr cam-drin domestig uchel o ran risg a gyfeirir at MARAC (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg). Drwy adolygu'r data hyn gallwn ganfod ymhle y ceir nifer anghymesur o isel o ddioddefwyr sy'n rhannu Nodwedd Warchodedig benodol yn rhoi gwybod am gam-drin domestig yn y lle cyntaf, ac yn cael eu cyfeirio i'r broses MARAC wedi hynny.

Llynedd fe wnaethom ganfod bod gennym nifer isel o ddynion yn rhoi gwybod eu bod yn dioddef cam-drin domestig, ac nad oedd llawer o ddioddefwyr gwrywaidd yn gwneud cais am wybodaeth dan y Cynllun Datgelu Cam-drin Domestig (Deddf Claire), y darn o ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i'r Heddlu ddatgelu manylion am hanes blaenorol person o gyflawni cam-drin domestig er mwyn gwarchod partneriaid newydd neu bartneriaid posibl. Ar ddiwedd 2014, fe wnaethom ddechrau anfon gorsaf heddlu symudol, yn cael ei rhedeg gan staff Cam-drin Domestig, i Rodney Parade yn ystod gemau pêl-droed a rygbi er mwyn targedu cynulleidfa wrywaidd. Mae staff hefyd wedi cael

mewnbwn gan y prosiect Dyn ynghylch sut i ymwneud yn effeithiol â dioddefwyr gwrywaidd, a'u hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau.

Dywed yr adborth diweddaraf yr ydym wedi'i gael gan CAADA y dylai ein perfformiad yn y maes hwn fod yn canfod mai dioddefwyr gwrywaidd yw 4–10% o gyfanswm yr achosion. Rydym bellach yn cyrraedd y nod hwn ac rydym o fewn y canllawiau y mae CAADA wedi eu nodi.

Mae data eleni wedi cael eu cyhoeddi yn rhan o'n Data Cydraddoldeb Blynnyddol, ac o'r data hyn rydym wedi gallu nodi meysydd newydd posibl lle mae angen gwaith, er enghraifft, cynyddu nifer yr atgyfeiriadau MARAC lle mae'r dioddefwr yn anabl. Mae CAADA'n awgrymu y dylai hwn fod tua 17%, ond yn Nhorfaen mae ein hatgyfeiriadau ar gyfer dioddefwyr anabl yn llai nag 1% o'n gyfanswm, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu ar draws Gwent (3.5% yw'r cyfartaledd cenedlaethol). Yn ddiweddar cafodd Fforwm Anabledd Heddlu Gwent fewnbwn gan Dditectif Ringyll arbenigol ynghylch arwyddion ac effaith cam-drin domestig a bydd yn gweithio rhagor gyda ni er mwyn annog pobl anabl i roi gwybod am ddigwyddiadau i'r heddlu.

Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

Mae ein holl staff a swyddogion sy'n gweithio yn ein Tîm Diogelu wedi bod ar gwrs tridiau o hyd ar drais ar sail anrhydedd, a gyflwynwyd gan Karma Nirvana, elusen genedlaethol sy'n cefnogi dioddefwyr a goroewyr priodasau dan orfod a thrais ar sail anrhydedd. Darparwyd yr hyfforddiant hwn hefyd i rai o'n swyddogion sydd ar y rheng flaen. Mae staff wedi cael mewnbwn hefyd ar sut gall cam-drin domestig effeithio ar bobl sy'n lesbiaidd, hoyw, cyfunrywiol neu drawsrywiol. Bellach mae'r holl staff yn Ystafell Reoli'r Llu wedi cael hyfforddiant ar sut i roi ymateb cychwynnol addas i ddioddefwyr cam-drin domestig, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau cenedlu benywod.

Rydym wedi nodi 60 o swyddogion ar draws y llu sydd, rhyngddynt, yn gallu darparu gwasanaeth 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos fel Eiriolwyr Diogelu. Mae'r Eiriolwyr wedi cael hyfforddiant ym maes cam-drin domestig, trais ar sail anrhydedd, diogelu plant a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant. Maent ar gael pan fydd ar unigolyn eu hangen fwyaf er mwyn darparu gwasanaeth sy'n benodol i anghenion yr unigolyn hwnnw. Maent wedi eu galluogi hefyd i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth swyddogion y maent yn gweithio gyda hwy mewn meysydd yn ymwneud â diogelu.

Yn ogystal â hyn, rydym ar hyn o bryd yn cynnal cynllun peilot gyda chyd-weithwyr o Gymorth i Fenywod i roi ymateb ar y cyd i ddigwyddiadau cam-drin domestig yn ystod oriau brig. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwella ein hymateb ac yn defnyddio sgiliau arbenigwyr allanol y gall pobl deimlo'n fwy cyfforddus yn rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiadau.

Ar Ddiwrnod y Rhuban Gwyn (25 Tachwedd) fe wnaethom atgoffa ein swyddogion a'n staff fod gennym Bolisi yn y Gweithle i'w cynorthwyo os byddant byth yn dioddef cam-drin domestig. Rydym yn cydnabod bod gan bob swyddog ac aelod staff sy'n profi, neu sydd wedi profi, cam-drin domestig yr hawl i godi'r mater a'i drafod gyda'u rheolwr ac/neu adrannau eraill a all roi cymorth a chynghor, gan wybod y byddant yn ymdrin â'r mater yn effeithiol, yn gyfrinachol, gydag empathi a heb farnu.

Prosesau a Gweithdrefnau

Ar ddiwedd 2014, adolygodd Heddlu Gwent ei bolisiau a'i weithdrefnau yn ymwneud â cham-drin domestig, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau cenedlu benywod. Mae'r polisiau gwell hyn yn rhoi strwythur a chanllawiau clir i swyddogion fel y gallant wneud penderfyniadau effeithiol a sicrhau canlyniadau rhesymegol. Cafodd y modd y gweithredir ac y defnyddir y polisiau hyn ei brofi yn sgil arolygiadau diweddar Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi.

Amcan 2: Troseddau Casineb

Sicrhau bod dioddefwyr pob math o droseddau casineb ac achosion o gasineb yn cael ymateb addas gan Heddlu Gwent sy'n canfod pobl agored i niwed ar gam cynnar, yn rhoi'r gefnogaeth orau iddynt, ac yn cynyddu'r tebygrwydd y ceir erlyniad llwyddiannus.

Cyflawniadau allweddol – yn gryno

- **Llwyddiant y cynllun peilot Swyddog Cymorth Troseddau Casineb yng Nghasnewydd**
- **Parhau i adolygu boddhad dioddefwyr troseddau casineb**
- **Cynnydd yn nifer yr achosion o gasineb a'r troseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt**
- **Canfod achosion o gasineb a throseddau casineb yn well adeg yr alwad**
- **Ymgyrch #HCAwarenessCymru yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref**
- **Cynnydd yn nifer yr adroddiadau am achosion o gasineb ar draws yr holl elfennau sy'n cael eu monitro**

Proses MARAC

Un o argymhellion allweddol ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu ar sail anabledd oedd y dylai heddluoedd weithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill i ganfod dioddefwyr uchel o ran risg yn well, ac i ymateb i aflonyddu ar sail anabledd a'i atal ar gam cynnar.

Er mwyn helpu i wireddu hyn oll, mae holl heddluoedd Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu MARAC o fewn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Mae MARAC yn fodel sydd eisoes wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus i ymdrin ag achosion cam-drin domestig uchel o ran risg. Mae'n broses sy'n caniatáu i gyrrff rannu gwybodaeth yn gyson, gan asesu risg a chynllunio'n briodol er mwyn atal niwed pellach.

Ariannwyd swydd ar gyfer Cymru gyfan i dreulio 12 mis yn ceisio sefydlu proses MARAC gyson ar draws y 4 llu. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, daethpwyd i'r casgliad, yn sgil y gwahaniaethau o ran modelau gweithredu a nifer y troseddau casineb, nad oedd yn addas mabwysiadu yr un broses ar draws lluoedd Cymru. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod yr holl luoedd bellach yn rheoli dioddefwyr uchel o ran risg yn fwy effeithiol, a bod gan bob un ohonynt system briodol i wneud hynny. O fewn Gwent, mae hyn yn cael ei gyflawni drwy nodi achosion uchel o ran risg yn ganolog bob wythnos, a thrwy grwpiau rheoli achosion lleol sy'n cwrdd yn rheolaidd ac sy'n cynnwys ystod o asiantaethau. Yn ddiweddarach yn 2015, bydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb yn dechrau monitro niferoedd yr achosion uchel o ran risg sy'n destun proses MARAC ar draws y 4 llu.

Ymwybyddiaeth

Ym mis Hydref 2014 fe wnaethom lansio ein Pecyn Cymorth Troseddau Casineb, sydd wedi'i gynllunio i fod yn un ffynhonnell wybodaeth ynghylch canfod, ymchwilio, cefnogi dioddefwyr ac erlyn ym maes troseddau casineb. Ers i ni lansio'r Pecyn Cymorth mae bron 800 o aelodau staff wedi manteisio ar ei gynnwys. Ynghyd â'r Pecyn Cymorth fe wnaethom gynnal cynllun peilot o'n cynllun Swyddog Cymorth Troseddau Casineb (HCSO) yng Nghasnewydd, lle rhoddir gwybod am fwyaf ein hachosion o gasineb. Cafodd ein Swyddogion Cyswllt Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol presennol 2 ddiwrnod o hyfforddiant oedd yn canolbwyntio ar ehangu eu gwybodaeth am fathau eraill o droseddau casineb, a'u dealltwriaeth ohonynt, a dechreuasom gyfeirio pob achos o gasineb y rhoddir gwybod amdano yng Nghasnewydd i Swyddog Cymorth Troseddau Casineb hyfforddedig.

Yn ogystal â chynnig cefnogaeth ychwanegol i ddioddefwyr achosion o gasineb, rhan allweddol o rôl y Swyddog Cymorth yw cynnig arweiniad a chyngor i'r swyddog sy'n ymchwilio. Ar ddiwedd cyfnod peilot 12 wythnos, cysylltwyd â sampl o ddioddefwyr oedd wedi cael cefnogaeth gan Swyddog Cymorth, a dywedodd pob un ohonynt eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod eu hyder yn Heddlu Gwent, ac i roi gwybod am achosion yn y dyfodol, wedi cynyddu. Bydd Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb pellach yn cael eu recriwtio yn ddiweddarach yn 2015, er mwyn darparu'r gwasanaeth ledled holl ardaloedd Gwent.

Un maes sydd wedi peri pryder yw niferoedd isel y troseddau casineb anabledd a ganfyddir ac y ceir erlyniad

Llwyddiannus ar eu cyfer yng Ngwent. Ar ddiwedd 2014, cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau i ariannu digwyddiad hyfforddiant penodol ar gyfer swyddogion heddlu a staff Gwasanaeth Erlyn y Goron yn tynnu sylw at y cymhlethdodau sy'n aml yn gysylltiedig â throseddau casineb anabledd, ac i geisio gwella ein perfformiad yn y maes hwn. Cynhelir y digwyddiad hyfforddi hwn yn ddiweddarach yn 2015.

Llwyddodd Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2015 i sicrhau proffil amlwg yn y cyfryngau; cynhaliwyd tua 30 o ddigwyddiadau mewn cymunedau lleol, a defnyddiwyd Twitter a Facebook yn helaeth i gysylltu â dyddiau thematig Llywodraeth Cymru. Penllanw'r wythnos oedd y digwyddiad 'Smashing the Barrier', lle'r oedd dros 100 o swyddogion heddlu, pobl anabl, gofawyr a chyrff cymorth yn bresennol, a phan ganolbwyntiwyd ar gael gwared ar rwystrau i roi gwybod am droseddau casineb anabledd a sicrhau ymateb effeithiol pan roddir gwybod am droseddau. Cafodd ein nifer uchaf o achosion o gasineb am dros 12 mis eu cofnodi yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb.

Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau, eu Cofnodi a Bodlonrwydd

Yn sgil adolygu ein data cydraddoldeb blaenorol, roedd yn amlwg nad oeddem yn casglu digon o wybodaeth am lefelau boddhad dioddefwyr troseddau casineb er mwyn deall sut i wella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu. I'n cynorthwyo i wneud hyn yn well, fe wnaethom recriwtio Gwirfoddolwr Cymorth Prosiect Troseddau Casineb sydd bellach yn ceisio cysylltu â'n holl dioddefwyr achosion o gasineb i ganfod mwy am eu profiadau gyda Heddlu Gwent. Mae'r data o'r arolygon hyn bellach yn cael eu hadolygu bob chwarter yn ein Fforwm Troseddau Casineb ac yn helpu i lywio ein Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb.

Yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf fe wnaethom dynnu sylw at rai meysydd oedd yn peri pryder yn ein data troseddau casineb ar gyfer 2012/13. Er bod niferoedd cyffredinol y troseddau casineb wedi cynyddu, bu gostyngiad yn nifer yr achosion yn ymwneud â hil ac anabledd y rhoddwyd gwybod amdanynt, ac mae anabledd yn faes y gwyddom eisoes na roddir gwybod yn ddigonol am achosion ynddo. Eleni rydym wedi canolbwyntio ar wella sut rydym yn canfod a chofnodi achosion adeg yr alwad, gan gynnwys rhoi hyfforddiant penodol i'n holl staff sy'n ymdrin â galwadau, a pharhau i fonitro a chraffu ar y modd y cofnodir achosion o gasineb wrth i bobl roi gwybod amdanynt. Bellach mae ein data 2014/15 yn dangos gwelliant yn nifer yr achosion o gasineb y rhoddwyd gwybod amdanynt ar gyfer yr holl feysydd a gofnodir:

	Anabledd	Hil	Crefydd	Cyfeiriadedd Rhywiol	Trawsrywiol	Cyfanswm
2013 / 2014	37	307	18	77	10	442
2014 / 2015	97	342	14	79	19	541

Amcan 3: Atal Eithafiaeth Dreisgar

Gweithio gyda phob cymuned i sicrhau bod gweithrediadau a gweithgarwch gwrthderfysgaeth yn cael yr effaith leiaf bosibl arnynt, ac i wella hyder mewn cymunedau i roi gwybod am achosion sy'n peri pryder. (Cyflawni Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cyflawniadau allweddol – yn gryno

- Mae dros 700 o staff yr heddlu a staff partneriaeth wedi cael mewnbwn ymwybyddiaeth dros y 12 mis diwethaf.
- Mae 32 o staff ledled y bartneriaeth wedi cael eu hyfforddi'n fewnol i gyflwyno WRAP 3 o fewn eu cyrff ym mis Mawrth 2015.
- Rhoddwyd negeseuon cadarnhaol i gymunedau lleol ynghylch PREVENT yn rhan o ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol.
- Bu cynnydd o ran atgyfeiriadau o 4 yn 6 mis olaf 2014 i 17 hyd yma yn 2015. Ar hyn o bryd mae 23 person mewn rheolaeth achosion PREVENT yng Ngwent.

Cynllun Cyflwyno

Mae'r Cynllun Gweithredu PREVENT mewn Partneriaeth wedi bod yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn lleol, a dderbyniwyd gan y Grŵp Rheoli ar 16 Gorffennaf 2014.

Cyswllt â'r Gymuned Asiaidd Ifanc a Menywod Asiaidd

Mae chwe Swyddog Cymorth Cymunedol wedi cael hyfforddiant PREVENT oedd yn canolbwyntio ar gyfleoedd cyswllt â Chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ifanc a Menywod Duon a Lleiafrifoedd Ethnig, a chafodd y cam terfynol ei gwblhau ym mis Awst 2014.

Ymwybyddiaeth

Yn sgil pwysau allanol ar gyrff statudol, dim ond newydd ddechrau y mae'r cynllun cyswllt cymunedol y cytunwyd arno ac a ddatblygwyd o fewn y Cynllun Gweithredu newydd. Hyd yn hyn rydym wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ymhlith staff mewn cyrff ac asiantaethau, yn enwedig y rheini sydd â chyswllt dyddiol, wyneb yn wyneb â'r cyhoedd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cydnabod pryderon cymunedol a gweithredu arnynt yn brydlon.

Mae colli VALREC wedi cael effaith negyddol hefyd, er bod cyswllt â Chymunedau yn Gyntaf a rhwydweithiau gwirfoddol cymunedol wedi dechrau. Gydag awdurdodau lleol rydym wedi dechrau darparu ymwybyddiaeth i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf gyda chyflwyniadau wedi'u trefnu ym Mlaenau Gwent a Chaerffili.

Mae dros 700 o staff yr heddlu a staff partneriaeth wedi cael mewnbwn ymwybyddiaeth dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys staff ledled asiantaethau statudol a gwirfoddol yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth. Bu'r ymateb i'r codi ymwybyddiaeth hwn yn hynod gadarnhaol. Bu i'r trosi i WRAP 3 o WRAP 2 a'r pwysau sefydliadol yn sgil uwchgynhadledd NATO effeithio ar hyn, gan gyfyngu ar fewnbwn ymwybyddiaeth dros gyfnod o 5 mis rhwng Mehefin a Thachwedd 2014. Yn ogystal, mae 32 o staff ledled y bartneriaeth wedi cael eu hyfforddi gan staff i gyflwyno WRAP 3 o fewn eu cyrff ym mis Mawrth 2015. Cafodd yr hyfforddiant hwn ei ddarparu mewn partneriaeth â swyddogion o Gyngor Dinas Casnewydd, y Gwasanaeth Prawf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyda chefnogaeth y Swyddfa Gartref.

Yn ogystal, mae'r pecyn NCALT i godi ymwybyddiaeth o PREVENT gyda swyddogion heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yng Ngwent wedi cael ei lansio. Cafodd hwn ei gefnogi gan Guardian Articles yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Wrthderfysgaeth yn 2014 ac erthyglau yn y wasg lle'r oedd angen, er enghraifft 'Fighting Radicalisation is "community responsibility"', South Wales Argus, 14 Gorffennaf 2014.

Mae nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu o 4 yn 6 mis olaf 2014 i 17 hyd yma yn 2015 ac ar hyn o bryd mae 23 o bobl o fewn rheolaeth achosion PREVENT yng Ngwent. Nid oes dim amheuaeth nad y gwaith codi ymwybyddiaeth a wnaed sy'n gyfrifol am hyn.

Amcan 4: Y Ddalfa

Canfod anghenion penodol pobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a gânt yn y ddalfa yn addas ac yn hyblyg.

Monitro a Chofnodi

Yn sgil cyflwyno system rheoli cofnodion newydd o'r enw NICHE, mae gan system dalfa Gwent bellach y capasiti i gofnodi'r manylion canlynol ynghylch person:

- Ethnigrwydd
- Oed
- Rhywedd
- Rhywfaint o wybodaeth am hunaniaeth rhywedd
- Anabledd (gellir cofnodi ystod o anabledau, er nad pob un)

Bydd gwaith pellach i fireinio a datblygu'r opsiynau cofnodi hyn, lle y bo'n briodol, yn parhau i fod yn gam gweithredu yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Anghenion Penodol

Yn y gorffennol, rydym wedi annog grwpiau cymunedol i ymweld â'n Huned Dalfa a dysgu mwy am y prosesau sy'n gysylltiedig â hi. Bu hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer pobl iau a chanddynt

awtistiaeth, Asperger's ac anawsterau dysgu eraill. Eleni, bu i un o'n Swyddogion Cadw yn y Ddalfa ddatblygu gwrs bwrpasol ar gyfer Ysgol Cwm Rhymni a disgyblion a chanddynt y cyflyrau penodol hyn, yn ogystal â'r rheini oedd yn aml yn ymddwyn yn ymosodol neu'n anodd. Roedd y wers yn cynnwys:

- Pam mae angen cyfreithiau amom a beth sy'n digwydd pan fydd person yn torri'r cyfreithiau hynny
- Edrych ar y daith o arestio hyd at aros yn y ddalfa
- Hawliau
- Gweithwyr proffesiynol o fewn y ddalfa
- Gweithdrefnau fforensig gan gynnwys profiad ymarferol
- Ymweliad ag amgylchedd uned y ddalfa

Roedd y sesiwn yn gwbl ryngweithiol ac roedd disgyblion yn gallu gweld a theimlo'r offer a ddefnyddir gan y swyddogion, yn ogystal â dysgu mecanweithiau ymdopi y gallent eu defnyddio pe byddent yn cael eu harestio neu'n cael eu tywys i amgylchedd dalfa. Cafodd y sesiwn adborth cadarnhaol gan y 30 o bobl ifanc fu'n bresennol, ynghyd ag athrawon a chynorthwyr, a bydd yn awr yn rhan o'r Cwricwlwm Anghenion Arbennig.

Cwrs Policesol

Mae cwrs 'Policesol' yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd mewn partneriaeth â'r grŵp cefnogi mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghasnewydd a fydd yn darparu sesiynau yn seiliedig ar egwyddorion ESOL gan ganolbwyntio ar ddiwylliant heddlua y DU a Gwent i newydd-ddyfodiaid i'r ardal. Bydd y cwrs 4 wythnos o hyd cyntaf yn cael ei ddarparu yn ddiweddarach eleni i aelodau o'r gymuned o Ddwyrain Ewrop a bydd yn cynnwys ymweliad ag uned y ddalfa er mwyn esbonio sut mae'r broses yn gweithio, ac i'w sicrhau y bydd cefnogaeth addas (er enghraifft, cyfieithwyr ar y pryd) yn cael ei darparu.

Amcan 5: Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Cynyddu ymddiriedaeth a hyder sipsiwn a theithwyr yn ein gwasanaethau heddlua a hyrwyddo perthynas gadarnhaol rhwng yr heddlu, sipsiwn a theithwyr, a chymunedau sefydlog.

Mae gennym bellach Strategaeth Sipsiwn a Theithwyr i gefnogi gwaith yn y maes hwn. Nod cyffredinol y strategaeth yw "darparu gwasanaeth i gymunedau sipsiwn a theithwyr sy'n gynhwysol, yn cydnabod anghenion penodol ac yn cefnogi gwelliant yn y berthynas rhwng yr heddlu a'r gymuned."

Gweithdrefn

Yn ddiweddar mae ein Gweithdrefn Gwersylloedd Diawdurdod wedi cael ei hadolygu, ynghyd ag archwiliad o nifer o achosion oedd yn cynnwys cymunedau sipsiwn, Romani a theithwyr. Er bod y weithdrefn yn addas i'w diben, rydym wedi canfod y bydd staff a swyddogion yn elwa o hyfforddiant ychwanegol ynghylch y diwylliant sipsiwn, Romani a theithwyr. Mae'r hyfforddiant hwn wedi cael ei gymeradwyo gan ein Bwrdd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a bydd yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach yn 2015.

Hyfforddiant ac Ymgysylltiad

Rhoddyd hyfforddiant i Eiriolwyr lleol ledled yr holl ardaloedd heddlua. Yr Eiriolwyr hyn bellach yw'r pwynt cyswllt cyntaf os ceir unrhyw achosion sy'n ymwneud â'n cymunedau sipsiwn, Romani a theithwyr. Mae ein safle sipsiwn, Romani a theithwyr sefydledig mwyaf ym Mhont-y-pŵl, ac mae ein Heiriolwyr yn yr ardal hon wedi bod yn arbennig o weithgar:

- Cynhaliwyd Noson Ymwybyddiaeth yn Nhorfaen i helpu i ddileu rhwystrau rhwng y gymuned sipsiwn, Romani a theithwyr a'r gymuned yn ehangach. Roedd y noson hefyd yn agored i swyddogion, a bu rhai ohonynt yn bresennol
- Rhoi mewnbyn troseddau casineb i staff a myfyrwyr mewn coleg lleol y mae nifer o fyfyrwyr o'r safle sipsiwn lleol yn ei fynychu
- Datblygu prosiect mentor yn cynnwys myfyrwyr benywaidd sy'n sipsiwn yn y coleg sydd bellach wedi cael hyfforddiant ym maes troseddau casineb a cham-drin domestig
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd bellach rhwng Eiriolwyr Sipsiwn, Romani a Theithwyr Torfaen a'r Swyddog Cyswllt Sipsiwn, Romani a Theithwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Mae ein Heiriolwyr hefyd mewn cyswllt rheolaidd â'r GRTPA (Cymdeithas Heddlu Sipsiwn Roma Teithwyr) genedlaethol a chawsant eu disgrifio fel 'model o ran arfer da'

- Mae llyfr 60 tudalen yn cael ei baratoi gyda phlant o'r gymuned sipsiwn, Romani a theithwyr yn Ysgol West Mon yn ymwneud â'u diwylliant a'r gymuned leol
- Mae cylchlythyr wedi cael ei ddosbarthu i'n cymunedau sipsiwn, Romani a theithwyr ym Mhont-y-pŵl sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am waith sy'n cael ei wneud gan Heddlu Gwent i wella ein gwasanaethau iddynt
- Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi ar gyfer Gwent gyfan â'r nod o wella'r modd y mae Heddlu Gwent ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ymdrin â gwersylloedd diawdurdod

Ym Mlaenau Gwent, lle mae ein cymuned sipsiwn, Romani a theithwyr sylweddol arall wedi sefydlu, mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yn ymweld â'r safle yn rheolaidd. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n datblygu polisi teithwyr a sipsiwn newydd sy'n adlewyrchu'r arferion heddlua presennol.

Mae gwelliannau yn ein hymwneud â chymunedau sipsiwn, Romani a theithwyr yn golygu ein bod yn awr yn gallu adlewyrchu ein safbwyntiau a'n pryderon yn well fel rhan o ymarferion ymgynghori, sydd yn ddiweddar wedi cynnwys newidiadau i'n proses PACT (Heddlu a Chymunedau gyda'i Gilydd), i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sydd yn bodloni eu hanghenion yn y modd gorau.

Amcan 6: Stopio a Chwilio

Sicrhau bod gweithgareddau stopio a chwilio yn cael eu cynnal mewn modd sy'n gyfreithlon, yn gymesur a ddim yn gwahaniaethu, a meithrin perthynas gadarnhaol o fewn a rhwng cymunedau a'r heddlu.

Key Achievements – in brief

- **Cymryd rhan yng Nghynllun y Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio y Swyddfa Gartref**
- **Craffu parhaus gan y Bwrdd Stopio a Chwilio ar sut mae'r llun defnyddio stopio a chwilio**
- **Stopio a Chwilio yn cael ei ddatblygu ar gyfer System Rheoli Perfformiad y Llu (QlikView)**

Cofnodi

Mae cyfanswm nifer yr achosion o stopio a chwilio a gofnodwyd yng Ngwent wedi gostwng o 4,599 yn 13/14 i 2,323 yn 14/15. Mae ein Cymhareb Anghymesuredd Hil, sy'n dangos sawl gwaith yn fwy tebygol yr ydych o gael eich stopio a'ch chwilio os ydych o gefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig, wedi cynyddu o 1.3 i 2.4. Mae'r ffigur hwn yn parhau i gael ei fonitro'n fanwl trwy gyfrwng ein Bwrdd Stopiau ac mae'n dal i fod yn welliant o'i gymharu â'n cymhareb a gofnodwyd yn 2012, oedd tua 3.8.

Ein Bwrdd Stopiau

Mae ein Bwrdd Stopiau bellach yn cwrdd bob chwarter er mwyn sicrhau ein bod yn monitro ein defnydd o stopio a chwilio yn effeithiol ac yn rhoi argymhellion cenedlaethol ar waith. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ac ymhlith yr aelodau mae cynrychiolwyr o wahanol ffrydiau gwaith ar draws y llu, aelodau o'n Grŵp Cynghori Annibynnol, aelodau o GEMA (Cymdeithas Heddlu Du Heddlu Gwent gynt) a chynrychiolaeth o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r Bwrdd yn archwilio data o'r cyfnod blaenorol yn ymwneud â nifer y stopiau a gofnodwyd, lefelau anghymesuredd (i lawr at lefel Wardiau), cwynion a gafwyd a pherfformiad swyddogion unigol. Mae unrhyw faterion a ganfyddir yn cael eu cyfeirio at ein Comandariaid Rhanbarthol lleol er mwyn gweithredu arnynt.

Ymgysylltiad â'r Gymuned

Mae aelodau o'n Grŵp Cynghori Annibynnol wedi mynd ar batrôl gyda swyddogion ac arsylwi ar nifer o achosion o stopio a chwilio. Bwriedir lansio Cynllun 'Teithio Gyda Ni' lle gall aelodau o'r cyhoedd wneud yr un fath yn ddiweddarach yn 2015.

Gan fod ymgynghori blaenorol ym maes cydraddoldeb wedi canfod bod ein cymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig iau yn teimlo bod stopio a chwilio yn cael effaith fwy arnynt hwy, o bosibl, mae ein gwaith ymgysylltu

â'r gymuned yn parhau i ganolbwyntio ar y demograffeg hwn. Ar hyn o bryd mae cwrs 'Policiesol' wrthi'n cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r grŵp cefnogi mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghasnewydd a fydd yn darparu sesiynau yn seiliedig ar egwyddorion ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill) yn canolbwyntio ar ddiwylliant heddlua Gwent a'r DU i newydd-ddyfodiaid i'r ardal. Gobeithir mai hwn fydd y cyntaf o nifer o gyrsiau Policiesol a fydd yn gwella lefelau gwybodaeth am yr heddlu a dealltwriaeth ohonynt o fewn ein cymunedau DLIE ac yn benodol eu hawliau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â stopio a chwilio.

Cynllun y Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio

Mae Heddlu Gwent wedi cydymffurfio â Chynllun y Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio, a lanswyd gan yr Ysgrifennydd Cartref yn haf 2014 â'r nod o wella cyfreithlondeb a thryloywder gweithgareddau stopio a chwilio ar draws gwasanaethau Heddlu y DU.

Fel sy'n ofynnol, mae Heddlu Gwent bellach:

- Yn cofnodi canlyniad pob achos o stopio mewn rhagor o fanylder er mwyn dangos y cysylltiad, neu'r diffyg cysylltiad, rhwng nod y chwilio a'i ganlyniad, gan ganiatáu asesiad o ba mor dda mae lluoedd yn dehongli "sail resymol dros amheuaeth"
- Yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd wneud cais i fynd ar batrôl gyda swyddogion
- Wedi cyflwyno "sbardun cymunedol" ar gyfer cwynion stopio a chwilio fel bod yn rhaid i luoedd egluro wrth y cyhoedd sut y defnyddir pwerau os ydynt yn cael nifer fawr o gwynion (er ein bod yn adolygu'r holl gwynion gan mai dim ond nifer fechan a gawn)
- Wedi diwygio eu defnydd o bŵer stopio a chwilio Adran 60

Adran B: Amcan Cydraddoldeb Mewnol

Amcan 7: Cyflogwr Delfrydol

Mae'r Amcan Strategol 'Cyflogwr Delfrydol' yn amlinellu nod Heddlu Gwent i greu amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol sy'n ceisio dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon. At hynny, ei nod i fod yn gorff lle caiff pobl eu trin â pharch a thegwch, a'u meithrin a'u datblygu mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn helpu i ddarparu gwasanaeth heddlua rhagorol i drigolion Gwent. Mae cynnydd yn erbyn yr Amcan Cyflogwr Delfrydol yn 2014/15 yn cael ei grynhoi dan benawdau allweddol isod:

A. Tangynrychiolaeth a recriwtio

Cyfyngedig fu'r cyfleoedd i recriwtio'n allanol yn sgil yr angen i barhau i leihau ein sefydliad staff heddlu a swyddogion o ganlyniad i'r toriadau parhaus mewn cyllideb sy'n wynebu cyflogwyr y sector cyhoeddus. Erys heriau o ran sicrhau bod ein gweithlu yn gynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Nid oes unrhyw swyddogion heddlu ychwanegol wedi cael eu recriwtio ers Awst 2013 yn sgil cyfyngiadau cyllidebol ac mae'r 20.87 o swyddogion heddlu du a lleiafrifoedd ethnig sy'n Cyfateb i Amser Llawn (CALI) sy'n gweithio i Heddlu Gwent ar 31 Mawrth 2015 yn cyfateb i 1.67%. Nid yw'r ffigur hwn yn adlewyrchu poblogaeth Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig ardal Gwent o 3.9% (6% yng Nghasnewydd). Bydd cynlluniau i'r dyfodol i recriwtio cyfanswm o 41 o swyddogion heddlu yn allanol yn ystod 2017 a 2018 yn cynnwys mesurau gweithredu cadarnhaol i annog ymgeiswyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig i wneud cais.

Ceir 12.52 o staff heddlu DLIE, sy'n cynnwys 7.52 o Swyddogion Cymorth Cymunedol. Mae'r ffigur cyffredinol hwn yn cyfateb i 1.35% o'r sefydliad staff heddlu. Mae canran y Swyddogion Cymorth Cymunedol DLIE yn cyfateb i 4.23% o sefydliad y Swyddogion Cymorth Cymunedol.

Ymunodd un garfan o 14 cwnstabl arbennig ym mis Chwefror 2015, 50% ohonynt yn fenywod. Yn ogystal, bu i 1 cwnstabl arbennig oedd wedi trosglwyddo ac 1 Prif Swyddog Cwnstablfaeth Arbennig ymuno llynedd. Bwriedir cymryd camau cadarnhaol yng nghyswllt yr ymgyrch recriwtio i'r gwnstablfaeth arbennig sydd wedi ei hamserlennu ar gyfer Mai 2015.

Un ffordd o gynyddu mewnbwn cymunedau DLIE o fewn y llu er nad ydym yn recriwtio cwnstablfaid arferol yw canolbwyntio ar gyfleoedd gwirfoddol. Gyda chefnogaeth Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig

Heddlu Gwent (GEMA), cynhaliwyd noson ymwybyddiaeth Cadetiaid yn ardal Pillgwenlli o ddinas Casnewydd, yn targedu recriwtiaid posibl DLIE yn benodol. Dechreuodd 55 o Gadetiaid newydd ym mis Ionawr 2015, 45% ohonynt yn fenywod a 3.6% DLIE. Defnyddir yr un model ar gyfer recriwtio Cwnstabiliaid Arbennig yn ddiweddarach eleni.

Gweithgor Datblygu DLIE

Er mwyn helpu i greu cyfleoedd i gynyddu ein sefydliad DLIE, yn ogystal â deall unrhyw rwystrau sy'n bodoli ar gyfer personél DLIE presennol o ran symud ymlaen neu ddatblygu, rydym wedi sefydlu Gweithgor Datblygu DLIE – ymhlith y rhai sy'n mynychu'r cyfarfodydd mae ein Heiriolwr Hil, cynrychiolwyr o Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Heddlu Gwent, Adnoddau Dynol a Chydlyniant Cymunedol ac mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu sy'n adlewyrchu meysydd gwaith allweddol sydd hefyd yn parhau'n genedlaethol yn rhan o brosiect 'BME Progression 2018' y Coleg Heddlua.

B. Monitro

Yn y gorffennol, rydym wedi canfod yr angen i wella pa mor effeithiol yr ydym yn monitro Nodweddion Gwarchodedig personél a cheisio mynd i'r afael â hyn drwy ddatblygu systemau oedd yn caniatáu i bersonél fewnbynnu eu gwybodaeth bersonol eu hunain. Yn sgil newidiadau sydd i ddod i'n system rheoli pobl (i-Trent), bu oedi o ran datblygu mewnbynnu hunanwasanaeth ar gyfer gwybodaeth fonitro. Mae Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru wedi cychwyn ar raglen gydweithredol fydd yn creu llwyfan technoleg integredig ar gyfer systemau AD a chyflogres, yn ogystal â systemau Rheoli Adnoddau Cyllid a Dyletswydd. Er mwyn sicrhau bod y systemau'n integreiddio'n llawn, bydd angen cynllunio eu cyflwyno yn raddol, a byddwn yn parhau i roi sylw i fewnbynnu hunanwasanaeth ar gyfer gwybodaeth fonitro.

C. Gweithio'n Hyblyg

Mae gweithio'n hyblyg yn gyfle i sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion gwaith a bywyd gartref. Mae galluogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn arfer rheoli da gan y gall leihau absenoliaeth, cynyddu effeithiolrwydd a morâl, gwella ymroddiad a helpu i gadw staff medrus.

Mae Heddlu Gwent yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio'n hyblyg er mwyn cynorthwyo swyddogion a staff i gydbwyso eu gwaith a'u bywyd gartref, gan roi ystyriaeth i'w hanghenion ac effeithiolrwydd gweithredol y llu. Cynhelir adolygiadau blynyddol o weithio'n hyblyg er mwyn sicrhau bod yr oriau gwaith yn parhau i fodloni anghenion yr unigolyn a'r sefydliad.

Mae adolygiad allanol gan Chwarae Teg o'n prosesau gweithio'n hyblyg yn cael ei gomisiynu i ddechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn sicrhau bod ein polisi gweithio'n hyblyg presennol yn bodloni anghenion y sefydliad a'n gweithlu.

Yn ogystal, rydym yn ymchwilio i ymarferoldeb cyfleuster hunanwasanaeth i ddynion a menywod i'w helpu i gyfrifo amcan o'u henillion er mwyn cynorthwyo eu penderfyniadau ynghylch a ydynt eisiau gwneud cais i ostwng eu horiau.

CH. Dysgu, Hyfforddiant a Datblygu

Cynhaliwyd hyfforddiant Rheoli Gweithlu Amrywiol gan Stonewall Cymru ym mis Chwefror, Mawrth ac Ebrill 2014. Roedd y cwrs wedi'i anelu at reolwyr llinell ac yn canolbwyntio ar sicrhau bod goruchwylwyr yn myfyrio ar eu sgiliau rheoli ac yn ceisio eu datblygu, yn ogystal â bod yn ymwybodol o faterion amrywiaeth penodol a all godi yn y gweithle.

Mae pecyn e-ddysgu NCALT sy'n rhoi cyflwyniad i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi'i wneud yn orfodol i'r holl swyddogion heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol, Cwnstabiliaid Arbennig a staff heddlu. Mae'r pecyn yn crynhoi darpariaethau allweddol Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn archwilio gwahanol Nodweddion Gwarchodedig a beth maent yn ei olygu.

Mae'r modiwl hefyd yn amlinellu'r mathau o ymddygiad a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn dangos pwysigrwydd ymdrin ag achosion o wahaniaethu, boed yn y gweithle neu mewn cysylltiad â'r cyhoedd. Erbyn 31 Mawrth 2015 roedd 744 aelod o bersonél wedi cwblhau'r pecyn.

Bu gwaith yn parhau i sicrhau bod yr holl gynlluniau gwersi newydd a diwygiedig yn cynnwys elfennau perthnasol o'r Cod Moeseg. Mae'r Cod Moeseg yn fframwaith i gefnogi aelodau o'r proffesiwn heddlua i wneud y penderfyniadau gorau a rhoi'r hyder i bawb gwestiynu pan deimlant nad yw penderfyniadau'n

cael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion heddlua o bosibl. Rhaid i swyddogion allu arddangos ymddygiad moesegol a gwneud penderfyniadau mewn modd moesegol o fewn y Gwasanaeth Heddlu.

Roedd sesiynau ymwybyddiaeth rheoli presenoldeb a ddarparwyd i reolwyr llinell gan Gynghorwyr AD yn cynnwys gwybodaeth am gymorth Mynediad i Waith a sut y gall fod er lles unigolion yn y gweithle.

Eleni rydym wedi bod yn gwneud gwaith i adfywio ac ail-lansio'r ddarpariaeth hyfforddi a mentora yn fewnol, i unrhyw swyddog neu aelod staff o fewn Heddlu Gwent, ar y cyd â'n Hadran Dysgu a Datblygu a'n Rhwydweithiau Cymorth. Mae hyfforddiant wedi'i gynllunio yn y flwyddyn sydd i ddod i swyddogion a staff sydd â diddordeb mewn rhoi cefnogaeth hyfforddwr a mentora.

D. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Heddlu Gwent yn parhau i sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ymgorffori'n gadarn yn ein prosesau llunio polisiau a gweithdrefnau. Eleni, cynhaliwyd 46 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth ddatblygu neu adolygu ein polisiau a'n gweithdrefnau ac maent wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer personél a allai orfod cwblhau asesiadau o'r fath, ac wedi rhoi canllawiau cynhwysfawr i bersonél sy'n rhan o'n Tîm Staying Ahead, sy'n arwain y gwaith o newid busnes ar draws y llu.

DD. Ein Heiriolwyr Amrywiaeth

Yn 2013 fe wnaeth y Prif Gwnstabl Jeff Farrar, fel arweinydd y llu ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth, chwilio am wirfoddolwyr oedd ag ymrwymiad gwirioneddol o blith y rheolwyr canol ac uwch i weithredu fel Eiriolwyr ar gyfer pob un o'r Nodweddion Gwarchoddedig. Ymhlith y cyfrifoldebau mae gweithio'n agos â'u Rhwydwaith Cefnogi Staff perthnasol, darparu pwynt cyswllt uwch i unrhyw bersonél gysylltu ag ef mewn perthynas â'u maes cyfrifoldeb, hyrwyddo eu Nodwedd Warchoddedig a chynorthwyo i gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bellach mae gan bob Eiriolwr Amrywiaeth ei Gynllun Gweithredu ei hun sy'n amlinellu eu blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn. Eleni, penodwyd Eiriolwr ychwanegol ar gyfer materion Iechyd Meddwl.

Eiriolwr Anabledd

Mae gan Heddlu Gwent bellach nifer o aelodau anabl sy'n rhan o'n Grŵp Cynghori Annibynnol, yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r llu os ceir digwyddiad tyngedfennol ac arweiniad strategol ynghylch polisi ac arferion. Ers Hydref 2013 mae gennym hefyd Fforwm Anabledd a fynychir gan gynrychiolwyr o gyrff anabledd lleol a phobl anabl. Mae'r fforwm yn canolbwyntio ar fynediad, cynhwysiant, a chodi ymwybyddiaeth o faterion anabledd o fewn y sector cyhoeddus.

Eiriolwr Iechyd Meddwl

Rydym wedi penodi Arolygydd fel Swyddog Cyswllt Iechyd Meddwl y Llu, sydd wedi darparu hyfforddiant i unigolion penodol o bob Uned Heddlua Leol a'r Ddalfa fel y gallant weithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer eu cyd-weithwyr. Byddant yn cefnogi'r Swyddog Cyswllt Iechyd Meddwl a'u maes gwaith perthnasol gyda'r holl faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a heddlua.

Rydym yn cydnabod y gall byw gyda chyflwr iechyd meddwl wanhaus person ar adegau, a gall dioddefwyr yn aml deimlo wedi'u hynysu ac yn unig. I ategu'r gefnogaeth sydd eisoes ar gael drwy ein Huned Iechyd Galwedigaethol, mae ein swyddogion a'n staff sydd wedi dioddef cyflwr iechyd meddwl wedi cael eu gwahodd i rannu eu profiadau gydag eraill mewn modd cefnogol a chadarnhaol yn rhan o rwydwaith cefnogi mewnol ar gyfer iechyd meddwl.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu cwrs Hyfforddiant Cadernid sy'n cael ei ddarparu fel cynllun peilot i 70 o gwnstabiail a rhingylliaid trwy gydol haf 2015. Nod y rhaglen hyfforddi arloesol hon yw gwella cadernid swyddogion heddlu pan fyddant yn wynebu digwyddiadau trawmatig. Dyma'r rhaglen gyntaf o'i bath yn y DU ac mae wedi'i chreu'n benodol ar gyfer Heddlu Gwent.

Rhoddwyd hyfforddiant i ringylliaid mewn perthynas â gweithdrefnau a phrotocolau lleol sydd mewn lle gydag asiantaethau eraill o safbwynt cadw dan adran 136 (ac opsiynau amgen i adran 136); asesu yn y gymuned dan adran 136, pobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl yn mynd ar goll o sefydliadau gofal iechyd a Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Hyd yma mae 344 o aelodau o bersonél wedi dilyn pecyn Ymwybyddiaeth o Afiechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu sydd wedi'i anelu at swyddogion heddlu, cwnstabiail arbennig a staff heddlu sy'n dod i gyswllt â'r cyhoedd.

Eiriolwr Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol

Mae ein Heiriolwr L, H, D a Th wedi goruchwylio ein cyfranogiad ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle blynyddol Stonewall eleni. Er na wnaeth Heddlu Gwent gyrraedd y 100 cyflogwr uchaf a restrwyd ym Mynegai 2015, roedd ein sgôr o 104 yn curo sgôr cyfartalog y Mynegai, sef 79, a sgôr cyfartalog y Gwasanaethau Brys, sef 87, yn rhwydd. Yng nghategori'r Gwasanaethau Brys, daethom yn safle 11 allan o 30, a ni hefyd oedd yr 11eg corff gorau o Gymru i ymgeisio, o blith grŵp o 55.

Cawsom gymeradwyaeth am waith ein grŵp rhwydwaith, Prism, ac am fod yn arloesol yn ein strategaethau ymgysylltu â'r gymuned. Tynnwyd sylw at un enghraifft o hyn – bod â phresenoldeb yn Wythnos y Glas yn y brifysgol – fel menter ragorol y dylai heddluoedd eraill ei chopio. Bydd yr adborth o'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle yn sail i waith datblygu ar gyfer y dyfodol yn 2015 ac rydym yn archwilio datblygu arf hunanasesu ac yn bwriadu meincnodi yn erbyn heddluoedd eraill yn y flwyddyn sydd i ddod.

Roedd prif swyddogion ac arweinwyr uwch yn Heddlu Gwent hefyd ymhlith y rhai a ymunodd ag ymgyrch 'No Bystanders' Stonewall yn erbyn bwlio a cham-drin.

Eiriolwr Rhywedd

Ar hyn o bryd mae ein Heiriolwr Rhywedd yn cefnogi gwaith Cymdeithas Heddlu Menywod Gwent i ail-lansio'r rhwydwaith a datblygu cyfleoedd hyfforddi a mentora pellach.

Gan weithio ynghyd â rhwydweithiau cefnogi Heddlu Gwent, mae seminar undydd ar Les yn cael ei chynnal i weithwyr Heddlu Gwent ym mis Tachwedd 2015. Mae'r rhaglen ar gyfer diwrnod llawn yn cynnwys cyflwynwyr mewnol ac allanol fydd yn siarad am reoli straen, iechyd, lles a chadernid. Mae'r seminar yn agored i'r holl staff a bydd adborth yn cael ei werthuso er mwyn cefnogi datblygiad digwyddiadau ar gyfer y dyfodol.

Mae gwaith yn symud yn ei flaen drwy gyfrwng yr Eiriolwr Rhywedd i ddatblygu gweithgor cenedlaethol i gefnogi amrywiaeth ym maes heddlua arfau tanio. Ar hyn o bryd mae'r maes heddlua arbenigol hwn wedi'i dangynrychioli yn rhanbarthol gan grwpiau lleiafrifol. Nod gwaith y grŵp yw canfod yr arferion gorau a rhannu dysgu er mwyn cefnogi amrywiaeth, ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Eiriolwr Gweithio'n Hyblyg a Mamolaeth

Yn dilyn y gwelliannau a wnaed i'n gweithdrefnau i gefnogi menywod yn ystod eu beichiogrwydd a'u habsenoldeb mamolaeth, rydym wedi ysgogi cynnal cyfarfod gorfodol er mwyn i reolwyr llinell gwrrdd â'u swyddogion neu weithwyr beichiog yn ystod 20fed wythnos y beichiogrwydd. Diben hyn yw adolygu trefniadau gwaith y fenyw ac unrhyw newidiadau pellach sydd eu hangen i'w phatrwm gwaith. Mae hefyd yn annog trafodaeth ynghylch trefniadau cyswllt yn ystod cyfnod yr absenoldeb mamolaeth, gweithio hyblyg/rhan-amser, talebau gofal plant ac anghenion hyfforddiant i'r dyfodol. Mae hyn yn ychwanegol at y cyfarfodydd a'r briffiadau 1-i-1 a gynhelir gan oruchwylwyr. Mae ein gwelliannau parhaus yn cynnwys adolygu'r ffurflen asesu risg generig ar gyfer swyddogion a staff beichiog.

Eiriolwr Hil

Mae ein Heiriolwr Hil yn goruchwylio gwaith y Grŵp Datblygu DLIE, sy'n ceisio cynyddu'r gynrychiolaeth DLIE o fewn ein gweithlu – mae rhagor o wybodaeth ar gael dan ein diweddariad ar yr amcan Cyflogwr Delfrydol.

Eiriolwr Crefydd a Chred

Fe wnaethom sefydlu rhwydwaith Crefydd a Chred ym mis Hydref 2014. Prif ddiben y rhwydwaith yw cefnogi swyddogion neu staff os ydynt yn wynebu problemau yn y gweithle yn ymwneud â'u crefydd neu eu cred, a sicrhau bod y materion hyn yn cael eu cydnabod ac yr ymdrinnir â hwy'n addas gan y sefydliad. Bydd y Rhwydwaith hefyd yn gweithredu fel cynghorydd beirniadol i'r llu mewn perthynas â materion crefydd a chred.

Eiriolwr Oed

Mae ein Heiriolwr Oed yn gweithio gyda phersonél allweddol amrywiol er mwyn sicrhau bod ystyriaethau yn ymwneud â chydaddoldeb oed a gwahaniaethu ar sail oed yn cael eu hymgorffori yn ein harferion o ddydd i ddydd drwy ein modelau ar gyfer newid busnes, gweithgaredd ymgysylltu a'r mathau o gefnogaeth yr ydym yn eu darparu i ddiodefwr. Mae Heddlu Gwent hefyd wedi creu cyswllt â'r Gymdeithas Alzheimer's, sydd wedi dechrau cyflwyno eu hyfforddiant 'Dementia Friends' ledled y llu.

Gweithgareddau Eraill

Ein Rhwydweithiau Cefnogi Staff

Prism (Rhwydwaith L, H, D a Th)

Yn ogystal â pharhau ein presenoldeb rheolaidd yn Pride Caerdydd, cafodd Heddlu Gwent eu cynrychioli am y tro cyntaf eleni ym mharêd Pride sy'n cael ei gynnal cyn y prif ddiwyddiad. Bu swyddogion nid yn unig yn cymryd rhan yn y parêd, ond roeddent hefyd yn cerdded mewn iwnifform lawn gyda chefnogaeth y Prif Gwnstabl Jeff Farrar. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ffaith eu bod yn cymryd rhan drwy gyfrif Twitter Prism (@gwentpolicelgbt), a chafwyd llawer o ymwneud ac ymateb cadarnhaol gan y cyhoedd a chan gyrff eraill. Mae'r llu a'r Prif Gwnstabl yn parhau i fod yn gwbl gefnogol i Prism; er enghraifft, rhoi baner yr enfys i hedfan yn y Pencadlys drwy gydol mis Chwefror i nodi Mis Hanes L, H, D a Th.

Unwaith eto bu i Heddlu Gwent gymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, gan ddod yn safle 119 o blith y 397 o gyrff oedd wedi ymgeisio. Er ei bod yn siom nad oedd y llu yn y 100 Uchaf, roedd sgôr y llu yn well nag ydoedd y flwyddyn flaenorol, ac yn sector y gwasanaethau brys roedd yn rhif 11 allan o 30. Fe wnaeth y llu hefyd gefnogi ymgyrch gwrth-fwlio genedlaethol Stonewall, 'No Bystanders'.

Parhaodd Prism i gefnogi datblygiad proffesiynol ei aelodau drwy noddi eu presenoldeb mewn amrywiol gynadleddau a seminarau, gan gynnwys cynadleddau Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yn Llundain a Chaerdydd. Bu aelodau o'r rhwydwaith hefyd yn bresennol yn y gynhadledd gychwynnol a bu iddynt gynorthwyo i ffurfio'r rhwydwaith heddlu L, H, D a Th cenedlaethol newydd.

Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Heddlu Gwent (GEMA)

Arferid adnabod y gymdeithas hon fel Cymdeithas Heddlu Duon Gwent, ac mae'r aelodau wedi adolygu enw a chyfansoddiad eu cymdeithas ac wedi penderfynu newid ei henw i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Heddlu Gwent (GEMA) a diwygio eu Cyfansoddiad i gynnwys aelodau gwyn nad ydynt yn Brydeinig.

Ym mis Mehefin 2014, cynhaliodd GEMA Ddiwrnod Datblygu ar gyfer aelodau a chynrychiolwyr o rwydweithiau DLIE yn Heddlu De Cymru, Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gogledd Cymru, a hefyd rhanbarth De-Orllewin Lloegr. Roedd lefel y presenoldeb yn dda a chafwyd siaradwyr o'r Coleg Heddlua a Gwasanaeth Heddlu y Metropolitan, yn ogystal â'r Prif Gwnstabl Farrar, y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Ian Johnston a Ms Kate Bennett, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru yn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Rhwydwaith Anabledd

Mae'r rhwydwaith staff yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd a rhoi cymorth ac arweiniad ar faterion yn ymwneud ag anabledd. Ailenwyd y rhwydwaith yn "Rhwydwaith Cefnogi Anabledd a Gofalwyr Heddlu Gwent" er mwyn cydnabod y rôl y mae gofalwyr yn ei chwarae wrth gefnogi pobl anabl.

Cymdeithas Heddlu Menywod Gwent

Mae Cymdeithas Heddlu Menywod Gwent yn rhoi cefnogaeth i'r holl swyddogion heddlu a staff heddlu benywaidd o fewn Heddlu Gwent. Mae'n cael ei rheoli gan Bwyllgor Llywio sy'n cwrdd yn rheolaidd, ac yn dilyn cyhoeddusrwydd i adfywio'r gymdeithas mae aelodau newydd wedi ymuno â'r pwyllgor llywio. Mae'r gymdeithas wedi cael ei hailfrandio a bydd yn 'mynd yn fyw' yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r gymdeithas wedi trefnu cynhadledd ar gyfer hydref 2015 ar thema 'Lles', a gefnogir gan ein holl rwydweithiau staff, ac mae wedi'i hanelu at holl aelodau'r rhwydweithiau staff.

Ein Grŵp Cyngori Annibynnol (IAG)

Mae Grŵp Cyngori Annibynnol Heddlu Gwent yn chwarae rôl 'ffrind beirniadol' mewn perthynas â datblygu polisi a gwasanaethau heddlua, a phan geir digwyddiad tyngedfennol o fewn ardal y llu sydd â'r potensial i gael effaith sylweddol ar gymunedau lleol. Ar hyn o bryd mae gan y grŵp 11 o aelodau gweithredol, o bob rhan o ardal y llu, ac mae ganddynt ystod o brofiadau personol, cefndiroedd cymdeithasol a phroffesiynau. Gall aelodau wneud sylwadau ar ystod o faterion gan gynnwys anabledd, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oed, hil, diwylliant a chrefydd.

Bellach mae gan y Grŵp Cynghori Annibynnol ei Gynllun Gweithredu blynyddol ei hun, sy'n cael ei adolygu cyn pob cyfarfod o'r grŵp (chwarterol).

Ymhlith y cynnydd allweddol a wnaed yn erbyn y Cynllun hyd yma eleni mae:

- Ailgynllunio gwefan y Grŵp, gan gynnwys tudalennau recriwtio newydd. Bellach mae tudalennau'r Grŵp yn fwy gweladwy (ar y safle cyhoeddus yn hytrach na'r un corfforaethol) ac maent wedi'u hysgrifennu mewn partneriaeth ag aelodau.
- <http://www.gwent.police.uk/advice-and-guidance/community/independent-advisory-group/>
- Hyrwyddo'r Grŵp a dathlu eu hymroddiad a'u brwdfrydedd yn ystod Wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr, gan ddefnyddio Twitter, Facebook a gwefan y llu.
- Cysylltu aelodau â Thimau Plismona yn y Gymdogaeth. Mae gan bob aelod bellach un neu ragor o ardaloedd lleol y maent yn gyfrifol am ymweld â hwy yn rheolaidd a chwrdd â'r Arolygydd Cymdogaeth er mwyn cynnig cefnogaeth, cyngor neu arweiniad, yn enwedig yng nghyswllt eu hymwneud â chymunedau lleiafrifol a rhai anodd eu cyrraedd. Datblygydd 'rhestr wirio' ymgysylltu er mwyn rhoi fframwaith i aelodau ar gyfer eu hadborth, a fydd yn cael ei adolygu yng nghyfarfodydd y Grŵp ac yn Fforwm Ymgysylltu y llu.

Yn ogystal â gweithio tuag at amcanion y Cynllun, mae'r Grŵp Cynghori Annibynnol hefyd wedi bod yn ymwneud, fel arfer, â gweithgareddau'r llu trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Darparu cynrychiolydd o'r grŵp i gynorthwyo wrth gynllunio ymgyrchoedd NATO
- Beirniadu un o'r categorïau yng Ngwobrau Heddlu Gwent, sy'n cael eu cynnal yn fuan
- Craffu ar ansawdd achosion o stopio a chwilio Heddlu Gwent yn rhan o ymarfer samplu dip Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Cynrychioli safbwyntiau'r gymuned ym Myrddau Hyder y Cyhoedd a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth y llu
- Gweithredu fel 'Ffrind Beirniadol' i'r llu yn achos sawl digwyddiad difrifol, neu dyngedfennol
- Gweithredu fel 'Siopwyr Dirgel' i'r llu er mwyn profi'r hygyrchedd a'r gwasanaeth a geir yn ein gorsafoedd, a chan y rhai sy'n ymdrin â'n galwadau

**Gwasanaethau Pobl
Pencadlys Heddlu Gwent,
Croesyceiliog,
Cwmbrân
NP44 2XJ**

Ffôn: 01633 64 20 19
Minicom: 01633 87 75 74
www.gwent.police.uk

**Tîm Cydlyniant Cymunedol,
Pencadlys Heddlu Gwent,
Croesyceiliog,
Cwmbrân
NP44 2XJ**

Ffôn: 01633 247 907
Ebost: communitycohesion@gwent.pnn.police.uk

**Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu,
Pencadlys Heddlu Gwent,
Croesyceiliog,
Cwmbrân
NP44 2XJ**

Ffôn: 01495 64 22 00
Ebost: commissioner@gwent.pnn.police.uk
www.gwent.pcc.police.uk

**Uned Safonau Proffesiynol,
Pencadlys Heddlu Gwent,
Croesyceiliog,
Cwmbrân
NP44 2XJ**

Ffôn: 01633 838 111
Ebost: professionalstandards@gwent.pnn.police.uk

**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – swyddfa Cymru
3ydd Llawr,
3 Sgwâr Callaghan,
Caerdydd.
CF10 5BT**

Ffôn: 0845 604 8810 (llinell gymorth)
0845 604 8820 (ffôn testun y llinell gymorth)
029 2044 7710 (galwadau eraill yn unig)
0845 604 8830 (ffacs y llinell gymorth)
029 2044 7712 (ffacs galwadau eraill)
Ebost: wales@equalityhumanrights.com

Ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol Diwygiedig

Amcan 1: Cam-drin Domestig/Rhywiol a Thrais Seiliedig ar Anrhydedd Sicrhau bod ymateb Heddlu Gwent i gam-drin domestig yn briodol ac yn hygyrch i bob cymuned, gan gynnwys y rhai a allai wynebu rhwystrau penodol wrth adrodd am achosion o gam-drin domestig, ac i sefydlu gwir ddarlun o nifer a natur yr achosion o HBV sy'n digwydd yn ardal Heddlu Gwent. (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Parhau i fonitro nodweddion gwarchoddedig dioddefwyr cam-drin domestig a mynd i'r afael â meysydd o danadrodd anghymesur	Cyflwyno ystod o fentrau i dargedu pobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig nad ydynt yn hygyrchu gwasanaethau plismona mewn perthynas â cham-drin domestig	Amddiffyn y Cyhoedd / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Cynnydd mewn adrodd gan ddioddefwyr gwryw, LHDT ac anabl
Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth penodol i'r Tîm Diogelu o gwmpas gweithio gyda chymunedau amrywiol	Cynyddu arbenigedd o fewn y mudiad, gan ddarparu lefel gefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer dioddefwyr	Amddiffyn y Cyhoedd / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Nifer o sesiynau ymwybyddiaeth wedi'u cyflwyno i bersonél
Darparu gwybodaeth hygyrch i gymunedau amrywiol a mudiadau trydydd parti perthnasol am gam-drin domestig, gan gynnwys ystod o opsiynau adrodd	Cynnydd mewn ymwybyddiaeth ac opsiynau adrodd ar gyfer grwpiau yr ystyrir yn draddodiadol eu bod yn 'anodd eu cyrraedd'	Amddiffyn y Cyhoedd / Cydlyniant Cymunedol	Mawrth 2015	Nifer neu enghreifftiau o achosion o ymgysylltu â chymunedau amrywiol mewn perthynas â materion cam-drin domestig
Darparu gwybodaeth ar gyfer yr holl swyddogion a staff am gymunedau a allai fod yn wynebu rhwystrau penodol i adrodd, neu y gallai fod angen cefnogaeth wedi'i theilwra arnynt (er enghraifft, dioddefwyr gwrywaidd, pobl anabl, menywod Sipsiwn a Theithwyr, pobl mewn perthynas â'r un rhyw)	Darparu lefel gefnogaeth uwch ar gyfer dioddefwyr ac adnabod unrhyw ffactorau risg ychwanegol mewn cam cynnar	Amddiffyn y Cyhoedd / Cydlyniant Cymunedol	Mehefin 2014	Nifer neu enghreifftiau o achosion o wybodaeth neu gyfathrebu mewnol o gwmpas cam-drin domestig a chymunedau amrywiol
Cynyddu ymwybyddiaeth o fewn ysgolion a cholegau o HBV a'r arwyddion rhybudd y gall myfyrwyr eraill neu staff eu hadnabod	Ymwybyddiaeth gynyddol ysgolion a phobl ifanc o arferion HBV, ac adnabod risgiau'n gynnar	Amddiffyn y Cyhoedd / Cydlyniant Cymunedol	Parhaus	Nifer neu enghreifftiau o fentrau a redir mewn ysgolion mewn perthynas â HBV
Adnabod a chofnodi achosion o HBV/FGM yn well ar y pwynt adrodd	Sefydlwyd darlun mwy cywir o faint a natur achosion o HBV/FGM o fewn Gwent	Amddiffyn y Cyhoedd	Mawrth 2016	Mecanweithiau cofnodi cadarn wedi'u rhoi ar waith a'u defnyddio'n gyson o fewn systemau Heddlu Gwent

Amcan 2: Troseddau Casineb

Sicrhau bod dioddefwyr pob math o droseddau ac achosion o gasineb yn derbyn ymateb priodol gan Heddlu Gwent a fydd yn adnabod pobl sy'n agored i niwed mewn cam cynnar, yn eu cefnogi yn y ffordd orau, ac yn cynyddu'r cyfle o erlyniad llwyddiannus. (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Cyflwyno'r canlynol trwy Gynllun Gweithredu Troseddau Casineb Heddlu Gwent: 1. Sefydlu system asesu risg a MARAC sy'n gyson ar draws pob LPU	Darparu ymyrraeth briodol ac aml-asiantaeth ar y cam cynharaf posib ar gyfer dioddefwyr bregus pob math o drosedd gasineb	Arweinydd Troseddau Casineb	Mawrth 2015	Cynllun peilot o'r system MARAC
2. Creu gweithlu sy'n deall materion, effeithiau ac anghenion cymunedau unigol	Staff a swyddogion mwy gwybodus sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i adnabod ac ymdrin â throseddau casineb	Arweinydd Troseddau Casineb	Mawrth 2015	Ail Gam yr hyfforddiant wedi'i gyflwyno i Sarsiantiaid NPT
3. Herio agweddau gwahaniaethol ac anoddefgar ac ymyrryd yn gynnar er mwyn atal pethau rhag gwaethygu	Adnabod dioddefwyr sy'n agored i niwed ac anabl a dioddefwyr cyson yn gynnar	Arweinydd Troseddau Casineb	Mawrth 2015	Adolygu'r VRA a rhoi'r system rheoli
4. Cyflawni gwella adnabyddiaeth o droseddau casineb, perchnogaeth ar achosion a'u rheoli	Cynnydd mewn erlyniadau llwyddiannus/ troseddwyr yn wynebu cyfiawnder a gwell gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr	Arweinydd Troseddau Casineb	Mawrth 2015	Prosesau ar waith o fewn NPT i reoli a pherchen ar droseddau ac achosion o gasineb yn effeithiol
5. Cynyddu adrodd a gwella mynediad i wasanaethau cefnogi dioddefwyr, yn enwedig ar gyfer troseddau casineb mewn perthynas ag anabledau	Systemau adrodd trydydd parti ac uniongyrchol sy'n hygyrch ac yn addas i'r diben. Adolygiadau rheolaidd o lefelau boddhad dioddefwyr	Arweinydd Troseddau Casineb	Mawrth 2015	Rhoi system adrodd trydydd parti effeithiol ar waith ar draws Gwent a monitro lefelau adrodd a boddhad dioddefwyr troseddau casineb mewn ffordd systematig

Amcan 3: Prevent

Gweithio gyda phob cymuned i isafu unrhyw effaith negyddol y gallai gweithrediadau gwrthderfysgaeth ei chael arnynt, a gwella hyder mewn cymunedau i adrodd am ddigwyddiadau sy'n peri pryder. (Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
<p>Cyflwyno'r canlynol trwy Gynllun Cyflwyno Prevent Heddlu Gwent:</p> <p>1. Ymgysylltu ymhellach â chymunedau i bennu'r effeithiau lleol y mae gweithgareddau Prevent wedi'u cael o fewn Gwent (Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)</p>	Adnabod unrhyw gamau y mae eu hangen i ymdrin ag unrhyw effaith negyddol neu densiwn cymunedol sy'n deillio o weithgareddau Prevent cyfredol	Arweinydd Prevent	Mehefin 2014	Cwblhau Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â gweithgareddau Prevent
<p>2. Ymgysylltu ymhellach â chymunedau Asiaidd ifanc a menywod Asiaidd, gan sefydlu mecanweithiau adborth rheolaidd ar gyfer meysydd trosedd ac anhrefn sy'n peri pryder</p>	Ffydd a hyder cynyddol mewn gwasanaethau plismona	Arweinydd Prevent	Parhaus	Mae mecanweithiau'n ar waith i ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r cymunedau hyn o gwmpas y blaenoriaethau lleol a adnabuwyd ar eu cyfer
<p>3. Darparu gwybodaeth hygrych i gymunedau ynghylch Prevent, ei ddiben a gweithgareddau'r Heddlu</p>	Herio unrhyw ystrydebau neu ganfyddiadau cymunedol negyddol yr agenda Prevent a gweithgareddau'r heddlu	Arweinydd Prevent	Parhaus	Nifer neu enghreifftiau o ddeunyddiau/ sesiynau ymwybyddiaeth Prevent a gyflwynwyd i gymunedau

Amcan 4: Y Ddalfa

Adnabod anghenion penodol pobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn y ddalfa'n briodol ac yn hyblyg (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol) Camau Gweithredu wedi'u croesgyfeirio yn erbyn meini prawf a bennwyd gan HMIC yn eu dogfen 'Disgwyliadau ar gyfer Dalfa'r Heddlu', 2012.

Action	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Gweithio gyda chymunedau i gynyddu ymwybyddiaeth swyddogion a staff yr heddlu sy'n gweithio yn y ddalfa o anghenion pobl o gefndiroedd amrywiol (Adran 2 Disgwyliadau: Parch, 2)	Hyder cynyddol mewn cymunedau a gwell ymwybyddiaeth ymysg swyddogion a staff sy'n gweithio gyda grwpiau amrywiol yn amgylchedd y ddalfa	Prif Arolygydd y Ddalfa	Parhaus	Nifer neu enghreifftiau o achosion o ymgysylltu â chymunedau amrywiol wrth gynllunio gwasanaethau'r ddalfa ac addysgu staff
Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael yn y ddalfa ynglŷn â hawliau, hawliadau a thriniaeth mewn ystod o fformatau ac ieithoedd hygyrch, gan gynnwys y Gymraeg, a gwella'r sefyllfa pan fydd angen (Adran 2 Triniaeth ac Amodau: Arsylwi, 2) (Adran 3 Hawliau Unigol: Disgwyliadau, 12) (Adran 3 Hawliau Unigol: Disgwyliadau, 16)	Mae aelodau'r cyhoedd sydd ag anawsterau cyfathrebu neu anghenion iaith yn cael gwybodaeth dda am eu hawliau	Prif Arolygydd y Ddalfa	Ebrill 2015	Enghreifftiau o wybodaeth a gynhyrchwyd mewn fformatau ac ieithoedd hygyrch
Adolygu a gwella monitro nodweddion gwarchoddedig o fewn y system ddalfa pan fydd angen	Darparu gwasanaeth sy'n addas i'r diben ac yn ystyried anghenion unigol	Prif Arolygydd y Ddalfa	Mawrth 2015	Y gallu i gofnodi manylion mewn perthynas ag oedran, anabledd, tueddfryd rhywiol, hil a chrefydd a hunaniaeth rhyw pan fydd hyn yn cyfeirio asesiad risg a / neu ddylunio gwasanaethau

Amcan 5: Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Cynyddu ffydd a hyder Sipsiwn a Theithwyr yn ein gwasanaethau plismona a hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol rhwng yr heddlu, Sipsiwn a Theithwyr a chymunedau sefydlog (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Adolygu Gweithdrefn Gwersyllfannau Anghyfreithlon Heddlu Gwent ac asesu p'un a oes angen darparu unrhyw arweiniad pellach i swyddogion	Arweiniad Cynhwysfawr Heddlu Gwent ar gael i'r holl swyddogion	Eiriolwr Amrywiaeth / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Cyhoeddir Gweithdrefn Briodol
Datblygu a hyrwyddo arweiniad Heddlu Gwent ar arferion diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr	Dealltwriaeth gynyddol staff a swyddogion mewn perthynas â diwylliant Sipsiwn/ Teithwyr	Eiriolwr Amrywiaeth / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Enghreifftiau o Arweiniad Heddlu Gwent wedi'u cyhoeddi
To scope the current levels of engagement with Gypsy and Traveller communities across LPUs, identify and share best practice	Gwell ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr lleol	Eiriolwr Amrywiaeth / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Efelychu arfer da ar draws Heddlu Gwent
Adnabod personél allweddol a fyddai'n elwa o hyfforddiant wedi'i dargedu o gwmpas materion Sipsiwn a Theithwyr er mwyn cefnogi ymgysylltu'n effeithiol	Swyddogion lleol â sgiliau priodol a all ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn fwy effeithiol	Eiriolwr Amrywiaeth / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Nifer neu enghreifftiau o swyddogion a hyfforddwyd
Sicrhau y gall Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr hygyrchu gwybodaeth am faterion plismona a allai effeithio arnynt - gan gynnwys troseddau casineb, cam-drin domestig a deddfwriaeth ysborian metel	Cymunedau mwy gwybodus gyda chyfleoedd cynyddol i hygyrchu gwasanaethau plismona	Eiriolwr Amrywiaeth / Cydlyniant Cymunedol	Ebrill 2016	Enghreifftiau o ymgysylltu o gwmpas y materion hyn neu ddeunyddiau wedi'u cynhyrchu a'u dosbarthu

Amcan 6: Stopio a Chwilio

Sicrhau bod gweithgareddau stopio a chwilio'n cael eu cyflawni mewn ffordd gyfreithlon, gymesur, anwahaniaethol ac sy'n datblygu cysylltiadau cadarnhaol o fewn a rhwng cymunedau a'r heddlu. (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
<p>Cyflwyno Cynllun Gwella Stopio a Chwilio Heddlu Gwent sy'n canolbwyntio ar 4 maes Cyflwyno allweddol:</p> <p>Maes Cyflwyno 1: Arweinyddiaeth Nod: Darparu arweinyddiaeth gref a gweladwy o gwmpas materion stopio a chwilio</p>	<p>Codi proffil stopio a chwilio o fewn Heddlu Gwent a chyflwyno negeseuon cryf a chyson o gwmpas disgwyliadau corfforaethol</p>	PGC	Mawrth 2015	Enghreifftiau o negeseuon / cyfathrebiadau gyda phersonél ym mhob lefel o'r mudiad
<p>Maes Cyflwyno 2: Ansawdd a Dadansoddiad Data Nod: Adolygu a gwella ansawdd data</p>	<p>Data sy'n ddigon cadarn i gyfeirio penderfyniadau rheolwyr a Heddlu Gwent</p>	PGC	Mawrth 2015	Data y profir ei fod yn adlewyrchu nifer yr achosion o stopio a chwilio a gyflawnir, sy'n cysylltu'n effeithiol â chanlyniadau ac y gellir ei fapio'n effeithiol yn erbyn patrymau troseddau
<p>Maes Cyflwyno 3: Craffu Nod: Rhoi systemau ar waith sy'n caniatáu craffu mewnol ac allanol parhaus o ansawdd achosion o stopio a chwilio</p>	<p>Craffu prosesau stopio a chwilio'n rheolaidd ac yn systematig gan y cyhoedd a phersonél allweddol</p>	PGC	Mawrth 2015	Tystiolaeth o graffu parhaus ac ystyrlon o berfformiad stopio a chwilio
<p>Maes Cyflwyno 4: Cysylltiadau Cymunedol Nod: Sicrhau bod gan gymunedau lleol fynediad i wybodaeth berthnasol o gwmpas gweithgareddau stopio a chwilio ac nad yw defnydd Heddlu Gwent o'r pŵer yn effeithio'n negyddol ar hyder y cyhoedd</p>	<p>Hyder cyhoeddus cynyddol mewn defnydd Heddlu Gwent o bwerau stopio a chwilio</p>	PGC	Mawrth 2015	Enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol â'r gymuned o gwmpas stopio a chwilio; rhoi'r Cynllun Defnydd Gorau Stopio a Chwilio o fewn Gwent; mynediad gwell i wybodaeth am hawliau, hawliadau a chwynion

Amcan 7: Anableddau

Cynyddu ffydd a hyder pobl anabl yn y gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Gwent a chadw aelodau staff anabl trwy eu galluogi i gymryd rhan a chyfrannu'n llawn trwy ymdrin â rhwystrau o fewn y gweithlu lle bo'n bosib. (Pobl a Diwylliant, Cyflwyniad Gweithredol, Prosesau Sefydliadol).

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
Gweithio gyda phobl anabl a phobl â salwch meddwl i asesu eu lefelau hyder yn Heddlu Gwent	Gwasanaethau sy'n cael eu cyfeirio a'u gwella gan 'wersi a ddysgwyd'	Arweinydd Iechyd Meddwl / Eiriolwr Anableddau	Mawrth 2015	Mesurau ar waith i asesu lefelau boddhad a hyder yn y system blismona
Ymgysylltu'n effeithiol â phobl anabl er mwyn datblygu gwasanaethau plismona sy'n hygyrch ac yn addas i'r diben gan gynnwys yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i bobl anabl neu bobl ag anawsterau cyfathrebu mewn sefyllfaoedd brys a'r rhai nad ydynt yn frys	Gwell mynediad i, a hyder mewn, gwasanaethau plismona ar gyfer pobl anabl	Eiriolwr Anableddau / Cydlyniant Cymunedol	Mawrth 2016	Fforwm Anableddau wedi'i sefydlu, wedi'i fynychu gan bobl anabl a chynrychiolwyr mudiadau pobl anabl Gweithredu / adnewyddu systemau cyswllt gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Adrodd SMS 101/999 • Pegasus • Cerdyn Awtistiaeth
Cyflwyno hyfforddiant priodol i swyddogion a staff mewn perthynas ag anableddau a salwch meddwl	Personél mwy gwybodus sy'n gallu ymdrin ag aelodau'r cyhoedd yn fwy priodol	Eiriolwr L&D / Anableddau	Parhaus	Enghreifftiau o sesiynau ymwybyddiaeth /nifer o swyddogion a staff a hyfforddwyd

Amcan 8: Cyflogwr o Ddewis

Adeiladu amgylchedd gweithio cynhwysol a chefnogol sy'n anelu at ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon. Bod yn fudiad lle mae pobl yn cael eu trin â pharch a thegwch, yn cael eu meithrin a'u datblygu mewn ffyrdd sy'n symud cyfle cyfartal ymlaen ac yn helpu cyflwyno gwasanaeth plismona ardderchog i ddinasyddion Gwent.

Cam Gweithredu	Canlyniad	Perchennog	Cwblhawyd gan	Dangosydd Perfformiad (PI)
<p>Adnabod meysydd allweddol lle mae angen cywain data cyflogaeth.</p> <p>Sicrhau bod data cyflogeion yn cael ei goladu a'i gofnodi'n gyson, yn gywir ac yn gadarn o ran data Cydraddoldeb.</p> <p>Adnabod tueddiadau o gywain data a chymryd camau priodol i ymdrin â meysydd o anghyfartaledd ar draws nodweddion gwarchoddedig.</p>	<p>Mudiad lle mae personél yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg a chyda pharch a bod proffil amrywiaeth y gweithle'n cael ei gydbwyso ar draws rolau / rhengoedd, yn benodol rolau arbenigol.</p>	<p>Rheolwr AD, Pennaeth L&D / Rhwydweithiau Staff/Eiriolwyr Cydraddoldeb</p>	<p>Cynnydd blynyddol hyd at Mawrth 2016</p>	<p>Gallu i gofnodi manylion mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Bydd nifer o enghreifftiau'n dangos pa gamau a gymerwyd i ymdrin â thangynrychiolaeth neu anghyfartaledd.</p>
<p>Adolygu trefniadau gweithio hyblyg i sicrhau bod cefnogaeth berthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig yn bodoli sy'n adlewyrchu anghenion staff a'u bod wedi'u cydbwyso ag anghenion y mudiad.</p>	<p>Mudiad sy'n rheoli gweithio hyblyg yn effeithiol, gan gefnogi'r unigolyn (yn benodol gweithwyr hŷn ac anabl, gofawyr a rhieni) yn ogystal â diwallu anghenion y mudiad.</p>	<p>Rheolwr AD / Rhwydweithiau Cefnogi / Eiriolwr Mamolaeth a Gweithio Hyblyg / Eiriolwr Cydraddoldeb Rhyw</p>	<p>Mawrth 2015</p>	<p>Darperir gwybodaeth mewn perthynas â mynediad, tueddiadau, anawsterau wrth ganiatáu gweithio hyblyg a'i gyfatebiaeth â salwch a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Gweithdrefnau wedi'u diweddarau.</p> <p>Datblygu pecyn cefnogi gweithio hyblyg. Cronfa ddata fanwl o wybodaeth ar gael i staff ei hygyrchu. Cynhyrchir ffilm i gynyddu gwybodaeth o weithio hyblyg. Gweithio gydag Eiriolwyr Cydraddoldeb eraill i alinio gweithrediad y 'pecyn cymorth' a'r 'eiriolwyr' cefnogi mentora Creu rhestr o gefnogaeth a mentoriaid lleol i gefnogi trafodaethau am weithio hyblyg.</p>

<p>Adolygu trefniadau mamolaeth i sicrhau bod cefnogaeth berthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig yn bodoli sy'n adlewyrchu anghenion staff.</p> <p>Adnabod ac ymdrin ag unrhyw faterion mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Bylchau mewn gwybodaeth rheolwyr llinell mewn perthynas â materion mamolaeth - Y rolau cyfyngedig a gyflawnir gan swyddogion / staff benywaidd a'r effaith y gall hyn ei chael ar ddatblygiad / cynnydd. 	<p>Mudiad sy'n cefnogi'r unigolyn yn effeithiol yn ystod beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth a'i dychweliad i'r gwaith.</p> <p>Mae swyddogion a staff benywaidd yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a heb fod o dan anfantais gan iddynt gael cyfnod o absenoldeb mamolaeth.</p>	<p>Rheolwr AD / Rhwydweithiau Cefnogi / Eiriolwr Mamolaeth a Gweithio Hyblyg</p>	<p>Mawrth 2015</p>	<p>Gweithdrefnau wedi'u diweddarau.</p> <p>Datblygu pecyn cefnogi gwaith mamolaeth.</p> <p>Cyhoeddir gwybodaeth mewn perthynas â gweithgareddau bwydo ar y fron. Tystiolaeth o gyfleusterau bwydo ar y fron yn cael eu hystyried/ defnyddio.</p> <p>Tystiolaeth o wybodaeth gynyddol rheolwyr llinell am faterion mamolaeth.</p> <p>Tystiolaeth o ba un a yw rolau cyfyngedig a gyflawnir gan staff/swyddogion benywaidd yn effeithio ar ddatblygiad/ cynnydd neu beidio.</p>
<p>Adolygu deunyddiau cyflwyno cyrsiau i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei gynnwys a'i brif-ffrydio fel rhan o'r holl gyrsiau pan fo'n briodol.</p>	<p>Mudiad lle mae staff Heddlu Gwent yn trin ei gilydd ac aelodau'r cyhoedd gyda pharch, tegwch, cwrteisi a phroffesiynoldeb.</p>	<p>Pennaeth L&D</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Tystiolaeth o ddeunyddiau cwrs wedi'u hadolygu a'u diweddarau.</p>
<p>Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i gynyddu dealltwriaeth o sut y gall staff hygyrchu addasiadau rhesymol a / neu gefnogaeth trwy'r cynllun Mynediad i Waith a darparu arweiniad / hyfforddiant penodol ar gyfer goruchwylwyr i'w galluogi i roi hyn ar waith.</p>	<p>Mae swyddogion ac aelodau staff anabl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan Heddlu Gwent.</p>	<p>Rheolwr AD / Rhwydwaith Cefnogi / Eiriolwr Anabledau</p>	<p>Mai 2014</p>	<p>Gwybodaeth ar gael i gynorthwyo sut y gall personél yr heddlu hygyrchu addasiadau rhesymol a / neu gefnogaeth trwy'r cynllun Mynediad i Waith.</p> <p>Tystiolaeth o fynediad effeithlon i gefnogaeth. Ymgorffori ymwybyddiaeth gydraddoldeb yn yr arweinyddiaeth seiliedig ar werthoedd a gynllunnir ar gyfer y rhai sy'n rheolwyr llinell am y tro cyntaf.</p>

<p>Darparu arweiniad/hyfforddiant i sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu prif-ffrydio o fewn polisïau a phrosesau Heddlu Gwent.</p> <p>Sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal pan fydd newidiadau yn yr ystâd neu wasanaethau busnes yn arwain at adleoli personél er mwyn adnabod ac ymdrin yn briodol â gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol posib.</p>	<p>Pan gânt eu heffeithio gan gyflwyniad neu newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau neu mewn cyfnodau o newidiadau busnes, mae aelodau o bersonél Heddlu Gwent yn teimlo bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd pan adnabyddir y cyfryw effaith.</p>	<p>Pennaeth L&D / Rheolwr AD</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Tystiolaeth o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau pan fydd newidiadau busnes wedi digwydd.</p>
<p>Rhoi'r argymhellion sy'n weddill o'r Arolwg Tueddfryd Rhywiol yn y Gweithle ar waith</p>	<p>Mae Heddlu Gwent yn cael ei ystyried yn fudiad sy'n gyfeillgar i LHDT ac yn weithle gwych. Mudiad sy'n sensitif i faterion mewn perthynas â thueddfryd rhywiol a thrawsryw. Gweithlu sy'n wybodus ac wedi'i addysgu'n dda a ble mae personél blaengar ac wedi'u cefnogi'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'r cyhoedd.</p>	<p>Ymgynghorydd AD (arweinydd LHDT) / Rhwydwaith LHDT / Eiriolwr LHDT</p>	<p>Medi 2014</p>	<p>Camau gweithredu wedi'u hymgorffori yng nghynllun newydd yr Eiriolwr LHDT</p>
<p>Cymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall er mwyn codi ein safle.</p>	<p>Mae Heddlu Gwent yn cael ei ystyried yn fudiad sy'n gyfeillgar i LHDT ac yn weithle gwych. Mudiad sy'n sensitif i faterion mewn perthynas â thueddfryd rhywiol a thrawsryw. Gweithlu sy'n wybodus ac wedi'i addysgu'n dda a ble mae personél blaengar ac wedi'u cefnogi'n ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'r cyhoedd.</p>	<p>Ymgynghorydd AD (arweinydd LHDT) / Rhwydwaith LHDT / Eiriolwr LHDT</p>	<p>Bob blwyddyn</p>	<p>Camau gweithredu i wella'r ymateb i'r Arolwg Stonewall</p> <p>Gweithredu Cadarnhaol</p> <p>Dysgu ac unrhyw gam gweithredu gan y rhai sydd wedi cael eu bwlio neu eu haflonyddu.</p> <p>Addysg / ymwybyddiaeth mewn perthynas â materion LHDT</p>
<p>Cwmpasu dichonoldeb a dymuniad ar gyfer rhwydwaith cefnogi seiliedig ar Grefydd/ Cred o fewn Heddlu Gwent</p>	<p>Mae Heddlu Gwent yn fudiad sy'n annog personél i godi unrhyw faterion / rhwystrau y maent yn eu profi mewn perthynas â chrefydd neu gred trwy'r cyfle i gyflwyno rhwydwaith cefnogi seiliedig ar Grefydd / Gred.</p>	<p>Eiriolwr Crefydd a Chred</p>	<p>Awst 2014</p>	<p>Gwaith ymgysylltu a gyflawnwyd a chanlyniadau a gyhoeddwyd</p>

<p>Gwella diwylliant ac arweinyddiaeth sefydliadol mewn perthynas â menywod yn y gweithle</p>	<p>Gwelliannau mewn:</p> <ul style="list-style-type: none"> -Cyfathrebu -Rheolwyr gwrywaidd yn dangos gwell dealltwriaeth o faterion meddygol -Gweithio Sifftiau -Ffydd a Hyder o gwmpas materion cyfrinachedd -Deall ac adnabod straen a'i achosion ar gyfer iechyd menywod 	<p>Eiriolwr Cydraddoldeb Rhyw/ Rhwydweithiau GWPA</p>	<p>Cynnydd blynyddol hyd at Mawrth 2016</p>	<p>Clinigau Lles</p> <p>Tystiolaeth o gefnogaeth a ddarperir tra ar absenoldeb mamolaeth</p>
<p>Gwell presenoldeb menywod o'i gymharu â dynion</p>	<p>Bydd presenoldeb menywod yn gwella i gyfateb i bresenoldeb dynion neu'n rhagori arno</p>	<p>Eiriolwr Cydraddoldeb Rhyw / Rhwydweithiau GWPA</p>	<p>Cynnydd blynyddol hyd at Mawrth 2016</p>	<p>Cyflawnwyd ymarfer ymchwilio i ddod o hyd i'r gwir resymau pam</p> <ul style="list-style-type: none"> - Safbwyntiau wedi'u cofnodi'n ddiennw - Adroddiad wedi'i gynhyrchu <p>Goruchwylwyr benywaidd yn cefnogi prosesau dychwelyd i'r gwaith.</p> <p>Bydd Eiriolwr Benywaidd yn cael ei greu o fewn Heddlu Gwent fel pwynt cyswllt unigol ar gyfer materion menywod.</p>
<p>Datblygu arolwg ar faterion rhyw gydag eiriolwyr cydraddoldeb.</p>	<p>Cofnodir materion benywaidd a gwrywaidd trwy newidiadau sefydliadol.</p>	<p>Eiriolwr Cydraddoldeb Rhyw / Rhwydweithiau GWPA</p>	<p>Mawrth 2015</p>	<p>Canolbwyntio camau gweithredu wedi'u targedu ar faterion sy'n ymwneud â staff.</p>

